

## **Cyngor Cymuned Llanllyfni**

Mon Awel, Lon Ysgubor Wen, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1HS.

Ffon: 01286 676462 e-bost: ajohnson200@btinternet.com

### **Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth yr 8fed o Ragfyr 2015.**

- 1. Presennol:** OP Huws (Cadair), Gwyndaf Roberts - Llanllyfni; Mark Ballam, Justin Davies, Barry Bracegirdle, Iwan Lloyd Williams - Penygroes; Harry Wyn Owen - Talysarn; Ffion Jones - Nantlle; Eurig Wyn Evans - Nebo / **Ymddiheuriadau:** Sharon Wynne Jones - Talysarn; Dyfed Edwards (Cynghorydd Sir), Nerys Williams - Penygroes; Gwyndaf Roberts (cyrraedd yn hwyr), Hefina Roberts - Llanllyfni; Craig ab Iago (Cynghorydd Sir) cyrraedd yn hwyr.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Antur Nantlle - OP Huws.
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Tachwedd.** Barry yn datgan cywirdeb a Justin yn eilio. Pawb yn cytuno.
- 4. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Ffordd Haearn Bach (ILIW) Sefyllfa cerbydau yn methu troi'n ol (loriau biniau ac yn y blaen), ffordd unffordd a dim lle i droi yn ol - wedi trafod efo Cyngor Gwynedd, a dim cyllid yn y sefyllfa ariannol bresennol i greu lle troi. **Penderfynwyd** gofyn i Gyngor Gwynedd gysylltu gyda trigolion i ofyn wrthynt beidio a pharcio ar dop y llwybr cyhoeddus, ac aros am ymateb; Cysylltu efo contractiwr tendr ffens MacPelah i ofyn am ddau eirda, enghreifftiau o waith, a chopi o dystysgrif yswiriant; **Swydd Is-Gadeirydd** Iwan yn cynnig enw Barry fel is-Gadeirydd i'r Cyngor. Harry yn eilio, a Barry yn cytuno a derbyn y swydd;. Biniau halen - darllenwyd ymatebion Cyngorau Cymuned cyfagos - pryderus am y sefyllfa. **Penderfynwyd** edrych ar y sefyllfa eto yn y flwyddyn newydd a gweld os oes unrhyw ddatblygiadau. Rhaid blaenoriaethu; (Gwyndaf yn cyrraedd) Siop Griffiths - ar ddeall fod y grwp yn agos iawn i'w targed. Dim mwy o wybodaeth wedi dod i law; Cae Efa Lwyd - daw'r swyddog o'r cwmni mewn cysylltiad pan fydd mwy o wybodaeth i law; Ffens Cwtin - cadarnhad ei bod am ei thrwsio; Llwybr Nasareth - darllenwyd yr ebost. **Penderfynwyd** gofyn wrth y swyddog am gyfarfod safle gyda Eurig, a rhoddwyd caniatad y Cyngor i Eurig i gario ymlaen; Cyflwr ffordd Trem yr Wyddfa - ymateb Cyngor Gwynedd yn annerbyniol oherwydd cyflwr y ffordd. Barry yn hysbysu'r Cyngor am ddarn concriid peryglus ar y gwli ; Cylchfan Talysarn - cysylltu yn ol efo Cyngor Gwynedd gan fod mesuryddion yn annigonol, arwyddion sydd eu angen; Arwydd tai CCG yn Nantlle - ebost yn cynnig rhoi sticer arall i orchuddio'r gair 'Numbers'. Angen bod yn barhaol - sticeri yn cael eu tynnu; Llwybr Tyrpeg i Talysarn - gyrru copi o'r ymateb i Sharon yn Talysarn; Y Fic - ymateb Cynefin yn gadarnhaol, ac ymateb Alun Ffred. Dyddiadau yn anghyfleus i Dyfed Edwards - cyfarfod i'w drefnu at y 29ain o Ionawr (cadarnhau'r dyddiad yn llawn wedi cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned); Estyniad Talysarn - 17 Ffordd Nantlle - dim ymateb hyd yn hyn o'r adran Gynllunio.
- 5. Sedd wag Talysarn.** Neb wedi cyflwyno enw i Gyngor Gwynedd - y Cyngor Cymuned yn rhydd i gyfethol. Gofynwyd i'r Cynghorwyr holi yn lleol am enwau er mwyn cyfethol yng nghyfarfod Ionawr.
- 6. Adrodd yn ol o unrhyw gyfarfod is-bwyllgor.** Dim cyfarfod wedi bod.
- 7. Cynllunio Penderfynwyd** adolygu trefniadau rhoi sylw ar geisiadau cynllunio. Gofynwyd i'r Clerc ebostio linc i Gyngorwyr o'r pentref dan sylw pan ddaw cais. Y Cynghorwyr i ebostio sylwadau yn ol i'r Clerc, ac wediyn gyrru i weddill Cynghorwyr y Cyngor Cymuned. Rhoddir **CYWIRDEB** i sylwadau a roddwyd ar gais cynllunio'r parc solar yn Nhalysarn - gofyn cwestiynnau ychwanegol oedd bwriad y Cyngor Cymuned yn hytrach na gwrthwynebu'r cais ei hun. C15/1136/22/LL – Pen Cae Newydd, Ffordd y Llyn, Nebo – estyniad. Derbyn.
- 8. Gohebiaeth.**  
**Cyngor Gwynedd**  
\*Adroddiad Sylwadau y Cynllun Adnau. Er gwybodaeth.  
**Arall**  
\*Llwybr – Talysarn. Er gwybodaeth.  
\*Dweud eich Dweud am Blismona - cyfarfod mis Ionawr. Julie Holland wedi cynnig dod i gyfarfod y Cyngor i drafod materion gwrthgymdeithasol yn y Dyffryn. Adroddwyd i'r Cyngor ei bod hi wedi bod allan yn trafod gyda phlant a pobl ifanc yr ardal.

\*BENESALLYN? BenesaDyffrynnantlle? (OPH) Trafodwyd, a chytunwyd bod werth edrych ar y cynllun. Cael mwy o wybodaeth i weld os y gallwn ni wneud yr un math o beth yn Dyffryn Nantlle.

\*Antur Nantlle – cynnig i ymuno a bwrdd rheoli Antur Nantlle. (OP Huws yn datgan diddordeb). Gofynwyd i unrhyw un a diddordeb ymuno a'r bwrdd rheoli i gysylltu yn uniongyrchol gyda Robat yn Antur Nantlle.

\*Un Llais – Bil Llywodraeth Leol Drafft. Er gwybodaeth.

\*Un Llais – Twf Gwyrdd Cymru. Er gwybodaeth. (Craig yn cyrraedd y cyfarfod)

\*Craig ab Iago – Bolard Llanllyfni (diweddariad) Craig yn adrodd fod y bolard i fod i gyrraedd cyn y Nadolig.

\*Craig ab Iago – Y Cwari (diweddariad). Dal i ddisgwyl am ymateb. Coed yn y cefn, Knotweed a safle yn beryglus - codi pryder.

\*Craig ab Iago – Ymddygiad gwrthgymdeithasol (diweddariad). Awgrymu i'r Cyngor wahodd Sgt Non Edwards yn ogystal a Julie Holland i'n cyfarfod mis Ionawr.

\*Pwyllgor Dinas Dinlle (Her Gwynedd) - Justin a Mark yn adrodd yn ol o'r cyfarfod diweddar. Trafodaeth ar lefel fwy eang. Aelodau o'r Parc Cenedlaethol, Cynefin, Cyngorau Cymuned, Cyngorwyr, Antur Nantlle, 2020, Antur Waunfawr yn rai a fynychodd. Gobeithio cael cyfarfod arall Ionawr.

\*Pwyllgor Craffu – Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol – Penodi Cadeirydd ac Aelodau. Er gwyboeth. Neb yn rhoi ei enw ymlaen.

\*Cyngor Iechyd Cymuned – Chwilio am aelodau. Barry yn fodlon i'r Cyngor yrru ei enw ymlaen.

\*Craig ab Iago – tipio slei bach Cwm Dulyn. Hon yn broblem barhaus.

\*Un Llais – Pwyllgor Ardal Dwyfor / Arfon 16/12/15. Er gwybodaeth. Neb am fynychu.

9. **Gwefan.** Adroddiad am faw cwn, arosfan bws. Hysbysu bydd y Cyngor yn trafod datrus problemau cymdeithasol yng nghyfarfod Ionawr o'r Cyngor. Goleuadau Nadolig newydd i fyny ac yn edrych yn dda.

10. **Dol Bebi. Penderfynwyd** cysylltu gyda'r Cyfreithiwr a gofyn iddo ymholi am gofrestru'r cae ar ran yr ymddiriedolwyr.

11. **Goleuadau Nadolig. Penderfynwyd** mis Ionawr, gwneud cais i bwyllgor Neuadd Goffa Penygroes (fel elusen) i gynnal goleuadau Nadolig Penygroes, ond bod y Cyngor Cymuned yn parhau i drefnu eu gosod ac yn y blaen. Cyfraniad blynyddol i'r Neuadd a fyddai yn ddigon i dalu am y trydan ac ati. Manteision ariannol i'r gymuned drwy beidio a gorfod talu costau trydan busnes i gynnal y goleuadau.

12. **Goleuadau Beics.** Julie Holland wedi sicrhau grant o £250 tuag at brynu'r goleuadau. Wedi archebu 100 o setiau o oleuadau beics.

13. **Materion Pentrefi. Penygroes Ffordd Haearn Bach** (gweler eitem 4); Cwn yn mynd i gae chwarae Ysgol Dyffryn Nantlle gyda'r nos. Agoriad i'r cae chwarae yn y gongl ochr uchaf wrth groesfan Hen Lon a Ffordd Llwyndu - plant yn rhedeg yn syth allan i'r lon. Ysgrifennu at y brif athrawes gyda'n pryderon, er mwyn cau cwn allan, a diogelwch plant; Carafan ar dir dros y ffordd i Tyddyn Bengan - holi Cyngor Gwynedd; Bolardiau Lon Las wastad ar i lawr ac yn beryglus; Sgwar wrth y Fic - y lon yn dirywio yn ofnadwy - pryder. Talysarn Cwn yn cael eu cerdded gyda'r nos ac yn gadael llanast baw cwn - dros bont Steshon. Llanllyfni Main car waelod lon Ddwr wedi difrodi. Gwliau ar Lon Ddwr wedi cau. Nantlle Rwbwl yn parhau i fod wrth Gelli. Nebo Baw cwn ar Lon Nasareth. Gofyn am fin wrth y gysgodfan bws os gwelwch yn dda.

14. **Llwybrau a Mynwentydd.** Atgoffa am y tanc septic wrth fynwent MacPela ddechrau Ionawr. Tyllau wedi eu cau i fewn yn y mynwentydd. Dim ymateb i'r llythyr am yr ardd fach ym mynwent Gorphwysfa. Ysgrifennu i atgoffa ar ol y Nadolig.

15. **Materion yn ymwed a'r heddlu.** Dim byd ychwanegol i'r adrodd.

16. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngwyd Clerc £25; Derbynebau Clerc £50.24; Coeden Nadolig £27.99; Gwynedd Fire Protection £1260; Scottish Power £39.48 a £40.48; Dyffryn Nantlle 2020 £150.60; UHY Hacker Young £354.00; Antur Nantlle £144; A Johnson derbynebau Rhagf £35.97; Ffair Nadolig Penygroes £100 (cyfraniad) - Cymeradwyo.

\***Taenlen i'w chymeradwyo.** Cymeradwyo.